Centre for Alternative Technology
Canolfan y Dechnoleg Amgen

Pethau Biolegol

Beth sydd mor bwysig am fioamrywiaeth?

Ceir bioamrywiaeth eang iawn ar y safle hwn.
Mae peth o hyn o ganlyniad i gamau bwriadol sydd wedi'u cymryd. Pa enghreifftiau o hyn sydd i'w gweld?

Mae peth bioamrywiaeth wedi datblygu o ganlyniad i bethau rydym wedi'u gwneud ar y safle ond budd damweiniol yw e, nid y prif bwrpas. Pa enghreifftiau o hyn sydd i'w gweld?

Nodwch a disgrifiwch gymaint o wahanol gynefinoedd ag y gellwch gael hyd iddynt fan hyn.

Does dim o'r cynhyrchion gwastraff organig ar y safle yn cyrraedd safle tirlenwi. Mewn safle tirlenwi, byddai'n dadelfennu'n anaerobig. Pa nwy y byddai'n ei gynhyrchu o ganlyniad, a pham ein bod ni am osgoi hynny?

Mae peth o'n gwastraff papur a charden yn mynd i'w ailgylchu ac mae'r gweddill yn mynd i'r domen gompost. Disgrifiwch y prosesau sy'n digwydd ar y tomennydd compost.

Yn y Ganolfan, byddwn yn trin gwastraff y toiledau mewn sawl gwahanol ffordd. Ewch i weld y toiledau newydd rhwng gorsaf uchaf y rheilffordd a'r siop. Edrychwch yn y toiled compost (sydd i'r ddeuryw) ac mewn o leiaf un o'r lleill.

Ewch i blatfform y Rheilffordd a chwiliwch am yr arwydd sy'n disgrifio beth sy'n digwydd i'r dŵr. O'r safle yma ar y platfform, gellwch weld y seilwaith sy'n delio â'r gwastraff. Disgrifiwch sut fyddwn yn trin y gwastraff.

Hefyd, mae gennym welyau cyrs i ddelio â llawer o'r dŵr "llwyd" a'r dŵr "du" o'r safle. Gellir gweld y prif wely cyrs wrth adael y maes parcio tuag at y briffordd (ychydig cyn croesi'r afon).

Beth yw dŵr "du"?

Beth yw dŵr “llwyd”?

Yn y bôn, system ddadelfennu planhigion yw’r ddaear. Trafodwch.